

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Mike Hedges AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

[seneddNHAMG@senedd.cymru](mailto:seneddNHAMG@senedd.cymru)

16 Medi 2020

Annwyl Mike,

Cyn i mi fynychu cyfarfod eich pwyllgor ar 8 Hydref er mwyn helpu â'r gwaith craffu ar Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020, amgaeaf ymatebion i'ch cwestiynau ysgrifenedig, crynodeb o'r Asesiad Integredig o'r Effeithiau a'r ddogfen grynodeb Fframwaith Cyffredin Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS).

Mae cynllun arfaethedig UK ETS yn cyflawni ein huchelgais amgylcheddol ac yn arwain y gwaith o ddatblygu marchnadoedd carbon byd-eang tra'n darparu sicrwydd a phontio llyfn i fusnesau ac yn hwyluso cysylltu â system yr UE. Mae'r Gorchymyn yn symud ymlaen yn dda drwy bedair deddfwrfa'r DU, ac mae Senedd yr Alban a Thŷ'r Cyffredin wedi ei gymeradwyo.

Bydd fy swyddogion yn rhoi trosolwg technegol o ETS y DU ar 24 Medi ac edrychaf ymlaen at drafod y Gorchymyn a'r fframwaith gyda chi ar 8 Hydref.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020**

### **Ymatebion Llywodraeth Cymru gwestiynau wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

#### **1. A ydych chi'n fodlon bod Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan lawn wrth ddatblygu'r fframwaith arfaethedig? A oes gennych unrhyw bryderon am unrhyw agwedd ar y cynigion?**

Mae fy swyddogion a minnau wedi cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu'r fframwaith arfaethedig. Ar lefel swyddogion, mae strwythur llywodraethu cadarn ar ffurf gweithgorau ac mae Bwrdd o uwch swyddogion. Cefais gyfle i drafod y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori â Gweinidogion o'r Llywodraethau eraill cyn cytuno ar y testun ymgynghori ar y cyd. Roeddwn hefyd wedi cytuno ar y safbwynt polisi terfynol, a oedd yn cael ei adlewyrchu yn nogfen ymateb ar y cyd y Llywodraeth ac sy'n mynd rhagddo drwy'r Gorchymyn drafft hwn.

Mae'r cynllun hwn yn cyflawni ein huchelgais amgylcheddol ac yn arwain y gwaith i ddatblygu marchnadoedd carbon byd-eang. Mae hefyd yn rhoi cyfnod pontio llyfn ynghyd â sicrwydd i fusnesau ac mae'n hwyluso cysylltu â system yr UE.

#### **2. Sut mae buddion Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion? Yn benodol, sut maen nhw'n adlewyrchu'r proffil allyriadau yng Nghymru?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Yn 2018, y flwyddyn ddiweddaraf mae data ar gael ar ei chyfer, roedd oddeutu 46% o allyriadau Cymru yn cael eu cynhyrchu gan gyfranogwyr pŵer, diwydiant a hedfan yn System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd ac felly mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau â'n hymdrechion i ddatgarboneiddio'r gweithgareddau hyn.

Bydd 'cap' y cynllun, sef nifer y lwfansau sydd ar gael bob blwyddyn yn y cynllun, yn cael ei adolygu yn dilyn y cyngor a ddisgwyllir gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, a fydd yn sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu'r proffil allyriadau gofynnol er mwyn i Gymru gyrraedd ei thargedau hinsawdd. Rwyf yn credu bod y cynllun yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng cymell camau i leihau allyriadau mewn gosodiadau carbon uchel yng Nghymru a chynnal amgylchedd lle gall busnesau fod yn gystadleuol.

#### **3. Beth yw eich ymateb i'r awgrym gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd, y soniwyd amdano yn llythyr yr Arglwydd Deben ar 20 Mawrth, sef bod y cynigion yn anghyson ag uchelgeisiau Sero Net y DU mewn rhai agweddau, yn ymwneud yn bennaf â'r lefel gymharol uchel o allyriadau a ganiateir o dan y cap arfaethedig?**

Mae'r cap interim rydym yn ei gyflwyno ar gyfer lansio Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU eisoes yn fwy uchelgeisiol nag y byddai wedi bod petaem yn aros yn System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ymateb

ar y cyd y Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gysoni'r cap tymor hirach ag ymrwymadau Sero-net pob gweinyddiaeth cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn gallu mynd â'r gwaith hwn rhagddo ar ôl i Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd gyhoeddi ei gyngor yn llawn ym mis Rhagfyr. Byddwn wedyn yn mynd ati'n ddiymdroi i ymgynghori ar y llwybr tymor hirach priodol ar gyfer y cap ac yn gweithredu'r newidiadau erbyn mis Ionawr 2023, os yw'n bosibl, ac yn sicr erbyn mis Ionawr 2024 fan bellaf.

**4. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod llywodraethau'r DU wedi ymateb i lythyr yr Arglwydd Deben, gan ddweud ei bod hi'n bwysig rhoi polisi ar waith sy'n darparu dull pragmatig a dichonadwy o gwrdd â sero net drwy'r ETS. A ydych chi'n credu bod y cap arfaethedig wedi'i bennu ar lefel briodol?**

I ailadrodd fy ymateb i gwestiwn 3, mae hi'n bwysig nodi bod hwn yn gap interim ac yn farchnad carbon newydd.

Mae lefel gychwynnol y cap yn golygu bod busnesau'n gallu pontio'n llyfn, mae'n osgoi sioc yn y farchnad ac mae'n cynnal cystadleurwydd busnesau wrth i ni ddelio â'r adferiad economaidd yn dilyn Covid-19 ac effeithiau ehangach Brexit. Mae hefyd yn dangos ym mha gyfeiriad byddwn ni'n teithio ac yn rhoi cyfle i gyfranogwyr baratoi ar gyfer cap tynnach. Byddai cap tynnach o lawer yn ystod blynyddoedd cynnar y farchnad newydd wedi gallu arwain at brisiau carbon uchel dros ben yn y blynyddoedd cynnar a byddai wedi tanseilio sefydlu'r cynllun newydd.

**5. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn, rydych chi'n derbyn efallai y bydd angen addasu'r cap ymhellach i sicrhau ei fod yn unol â'ch uchelgeisiau sero net. Bydd Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (CCC) yn rhoi cyngor ar lwybr i sero net ym mis Rhagfyr (2020) ac rydych chi wedi ymrwymo i ymgynghori ar unrhyw newidiadau i'r cap o fewn 9 mis a gweithredu'r newidiadau gofynnol erbyn 1 Ionawr 2023 os yn bosibl a fan bellaf erbyn 1 Ionawr 2024. A yw'r oedi hwn yn peri risg i'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei tharged interim 2030 ar gyfer lleihau allyriadau?**

Nac ydy, ni fydd hi'n rhy hwyr i addasu. O'r cychwyn cyntaf bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn dangos mwy o uchelgais o ran yr hinsawdd nag aros yn System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd a bydd y cap 5% yn dynnach i ddechrau. Bydd hyn yn cefnogi cydymffurfiaeth â'n hail Gyllideb Garbon (2021-2025) ar unwaith ac yn dangos ein bod yn bwriadu adolygu hyn yn y dyfodol.

Mae gosod cap sero-net cyson, newydd erbyn 2023 yn bosibl ond yn uchelgeisiol. Mae'r ymrwymiad i weithredu erbyn 2024 fan bellaf yn drefniant wrth gefn os na fyddwn yn gallu bwrw ymlaen â'r cynigion sy'n cael eu datblygu, ymgynghori, rhoi rhybudd i'r farchnad a deddfu cyn gynted ag oeddem wedi'i fwriadu. Ym mis Rhagfyr, mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cynghori ar ein trydedd Gyllideb Garbon (2026-2030) a tharged interim 2030 yn ogystal â chynghori ynghylch cap y

Cynllun Masnachu Allyriadau, felly bydd y cyngor statudol a'r dystiolaeth ategol y byddwn yn eu defnyddio i wneud pob penderfyniad yn gyson.

**6. Sut fydd y Senedd yn cael ei chynnwys i graffu ar effeithiolrwydd y cynllun yn y dyfodol? Pa ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion mewn perthynas â'r mater hwn?**

Mae cymal 17 y Gorchymyn yn darparu ar gyfer dau adolygiad o'r system gyfan. Bydd y rhain yn golygu adrodd ar berfformiad y cynllun, gan gynnwys a yw'n cyflawni bwriad y polisi. Bydd ein hadroddiad ar gael i'r Senedd graffu arno. Bydd unrhyw newidiadau mawr i bolisi a argymhellir wedyn yn galw am ymgynghori a deddfwriaeth a byddaf ar gael i drafod y rhain â chi ac ystyried eich mewnbwn, cyn cytuno ar y cynigion terfynol gyda'r Gweinidogion o'r Llywodraethau eraill. Bydd unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol hefyd yn cael ei gosod yn y pedair deddfwrfa.

**7. Mae Cymal 17 o'r Gorchymyn yn nodi mecanwaith adolygu ar gyfer yr ETS. Mae hyn yn cynnwys yr Awdurdod ETS (un neu fwy o lywodraethau'r DU) yn adolygu ei gynllun ei hun ac yn gwneud argymhellion iddo ef ei hun. Pam eich bod chi'n credu bod hwn yn fecanwaith adolygu priodol? Sut y bydd llywodraethau'r DU yn sicrhau rhywfaint o annibyniaeth yn y broses adolygu?**

Cyn gosod cynllun masnachu, mae Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cenedlaethol i geisio ac i ystyried cyngor y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, ac i ymgynghori â'r rheini y mae'r rheoliadau'n debygol o effeithio arnynt. Bydd pob deddfwrfa hefyd yn cael y cyfle i ystyried yr argymhellion a'r adroddiadau cynnydd sydd wedi cael eu cyhoeddi, a bydd unrhyw sylwadau neu argymhellion sydd gennych yn cael eu hystyried. Fel rhan o'r gwaith o adolygu'r cynllun, bydd Gweinidogion Cymru (fel rhan o Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU) yn ystyried a yw Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cyd-fynd â'r targedau a'r cyllidebau sydd wedi cael eu gosod dan ddeddfwriaeth Cymru.

Mae gan y Senedd ran i'w chwarae drwy graffu ar y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thargedau a chyllidebau carbon Cymru a osodir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sef y darlun ehangach y mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU wedi cael ei ddylunio i gyfrannu ato.

**8. Mae'r Gorchymyn yn nodi bod yn rhaid cwblhau adolygiadau erbyn 31 Rhagfyr 2023 a 31 Rhagfyr 2028. A allwch chi egluro pam y cafodd y llinellau amser hyn eu dewis? A allwch chi egluro sut y bydd hyn yn ategu'r llinellau amser ar gyfer cyllidebu carbon a thargedau interim a nodir yn neddfwriaeth Cymru?**

Mae angen i'r adolygiadau edrych yn ôl ar weithrediad ac effeithiolrwydd y cynllun ac edrych ymlaen at newidiadau posibl.

Ac ystyried bod hwn yn gynllun newydd, mae angen rhoi cyfnod rhesymol iddo wreiddio cyn i ni allu llunio casgliadau cadarn o unrhyw werthusiad. Os bydd yr

adolygiad yn arwain at gynigion i newid y cynllun, yr adeg fwyaf priodol i'w cyflwyno fyddai ar ddechrau'r ail gyfnod dyrannu. Mae datblygu cynigion erbyn mis Rhagfyr 2023 yn golygu bod digon o amser i ragweld newidiadau i'r farchnad ac mae'n rhoi cyfle i ymgynghori, llunio'r cynigion manwl terfynol, deddfwriaeth ddrafft, mynd drwy'r broses craffu, paratoi'n weithredol a gweithredu'r newidiadau ar 1 Ionawr 2026.

Mae'r un peth yn wir o ran gwerthuso'r ail gyfnod dyrannu erbyn 31 Rhagfyr 2028 i benderfynu a oes angen newidiadau ar gyfer cam llawn nesaf y cynllun, o 1 Ionawr 2031 ymlaen.

Ar ben hynny, mae'r adolygiadau'n cyd-fynd yn union ag adolygiadau Cam IV System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd ac ymdrechion Archwiliad Byd-eang Cytundeb Paris. Mae hi'n fuddiol bod y pwyntiau adolygu yn cyd-fynd â System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd rhag ofn bod y system wedi'i chysylltu â system yr Undeb Ewropeaidd. Mae eu cysoni â dyddiadau'r Archwiliad Byd-eang yn sicrhau bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn cyd-fynd ag uchelgeisiau byd-eang ar garbon.

Bydd pob cyllideb garbon olynol yn cael ei phennu 5 mlynedd cyn dechrau cyfnod y gyllideb 5 mlynedd. Felly, bydd adolygiad 2023 a'r argymhellion a fydd yn edrych i'r dyfodol yn ystyried cyllideb garbon 2026-2030. Yn yr un modd bydd adolygiad ac argymhellion 2028 yn ystyried cyllideb garbon 2031-2035.

## **9. A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y trefniadau llywodraethu sy'n codi o'r fframwaith, gan gynnwys trefniadau cymrodeddu yn achos anghydfodau?**

Rydym yn llunio'r trefniadau llywodraethu terfynol ar gyfer y fframwaith yn y Concordat a'r Cytundeb Amlinelliad o'r Fframwaith. Fodd bynnag, yn wahanol i nifer o fframweithiau eraill sy'n dod i'r amlwg, mae rolau Gweinidogion Cymru yn cael eu diffinio yn y ddeddfwriaeth. Felly, mae'r Concordat i raddau helaeth yn ffordd o weithredu'r gofynion llywodraethu.

Mae sawl lefel i'r strwythur llywodraethu – gweithgorau lefel swyddogion, y Bwrdd lefel uwch Swyddogion, wedyn lefel bedairochrog y Gweinidogion. Y cam olaf, os na fydd Gweinidogion yn gallu cytuno, fyddai uwchgyfeirio i'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion[EN].

Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd ofyn am gyngor gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd cyn deddfu ar gyfer cynlluniau masnachu ac, felly, byddwn i gyd yn derbyn yr un dystiolaeth annibynnol i gefnogi ein penderfyniadau. Ar sail hyn, a'r targedau lleihau allyriadau statudol y mae angen i ni gyd ymgynghori tuag atynt, byddwn yn disgwyl ein bod yn meddwl yn weddol debyg a'n bod yn annhebygol o fod angen troi at dulliau datrys anghydfod.

**10. Roedd ymateb y pedair llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y UK ETS arfaethedig yn dweud bod 55 o ymatebwyr wedi nodi bod ganddynt ddiddordeb ledled y DU yng ngweithrediad y system, tra dywedodd 19 bod ganddynt ddiddordeb yn Lloegr, 8 yn yr Alban, 6 yng Nghymru a 2 yng Ngogledd Iwerddon. Er gwybodaeth, roedd ymatebwyr yn gallu dewis sawl lleoliad. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn, fe wnaethoch chi hefyd gyfeirio at ddau ddigwyddiad i randdeiliaid a gynhaliwyd yng Nghymru i gasglu barn partïon â diddordeb gan gynnwys darpar gyfranogwyr y cynllun. A ydych chi'n fodlon yr ymgynghorwyd yn ddigonol â busnesau a rhanddeiliaid Cymru?**

Rwyf yn fodlon ein bod wedi rhoi cyfle da i'r partïon sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau am yr ymgynghoriad a gwahoddiadau i'n digwyddiadau ar y we drwy restr cysylltiadau Cyfoeth Naturiol Cymru i bawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun yng Nghymru. Mewn gwirionedd, mae nifer o weithredwyr yn dewis cyhoeddi ymatebion drwy eu cyrff masnach neu drwy gynrychiolwyr eraill o'r diwydiant.

Ac ystyried natur y cynllun, mae gan nifer o gyfranogwyr nifer o osodiadau ar draws y DU. Nid yw'n syndod felly mai dim ond 6 ymateb a gafwyd gan y rheini sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn unig.

**11. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y cynllun ETS yn arwain at gostau staffio ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd y cynllun yn arwain at unrhyw gostau staff ychwanegol o gymharu ag aros yn yr EU ETS. A allwch chi gadarnhau eich bod yn fodlon bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i wneud ei waith fel rheolydd yr UK ETS yng Nghymru?**

Mae modd cymharu rôl Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr amgylcheddol Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU â'r rôl mae'n ei chyflawni ar hyn o bryd dan system yr UE. Felly, ar y sail y bydd y cwmpas yn cael ei gynnal yn y blynyddoedd cynnar, rwyf yn hyderus bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau. Yn y dyfodol, petai'r cwmpas yn cael ei ehangu ac y byddai llawer mwy o osodiadau neu weithredwyr yn dod o dan y cynllun, byddai adnoddau staff yn cael eu hadolygu.

O ran cyllido'r gweithgaredd hwn, mae'r rheoleiddwyr yn codi ar y cyfranogwyr i gynnal eu gweithgareddau rheoleiddiol, ac, o ganlyniad, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu delio ag unrhyw gynnydd yn y gost yn y dyfodol.

**12. Yn y Memorandwm Esboniadol, rydych chi'n egluro, ar hyn o bryd, nad yw cronfeydd a gynhyrchir gan gynllun yr UE ETS wedi'u neilltuo ond eu bod yn cyfrannu at goffrau cyffredinol y Trysorlys. Rydych yn mynd ymlaen i ddweud mai dull arall y mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi yw sefydlu cronfa datgarboneiddio diwydiannol i ailgylchu derbynebaw ocsiwn yn becynnau cyllido ar gyfer datgarboneiddio dwfn ein diwydiannau. A allwch chi**

**gadarnhau a fydd arian a gynhyrchir gan gynllun arfaethedig UK ETS yn parhau i gael ei ddychwelyd i'r trysorlys? A allwch chi egluro statws eich dull amgen arfaethedig ar gyfer cronfa datgarboneiddio diwydiannol?**

Yn ystod trafodaethau Gweinidogol yn y Gwanwyn roeddwn wedi datgan yn gryf fy mod yn ffafrio cronfa a byddwn yn disgwyl rhagor o drafodaethau gyda Gweinidogion y DU ar yr agwedd hon dros y misoedd nesaf. Mae'r penderfyniad ar gronfa yn rhan o ymgynghoriadau ehangach o lawer ynghylch costau pontio i sero-net ac nid yw hyn yn derfynol eto. Mae'n galonogol bod Llywodraeth y DU yn agored i sefydlu fforwm Gweinidogol i drafod polisiau ar gyfer sero-net a byddwn yn disgwyl i'r trafodaethau hynny gynnwys dewisiadau cyllido.

**13. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnal asesiad effaith ar gyfer y Gorchymyn. Nid yw'r asesiad yn ystyried rhai materion sy'n benodol i Gymru, megis effaith y cynigion ar y Gymraeg neu asesiad o'r mesur yn erbyn y nodau llesiant. A ydych chi'n fodlon â'r asesiad effaith a gynhaliwyd?**

Cafodd yr asesiad effaith ei wneud gan ddadansoddwyr BEIS ar ran cynllun y DU a chytunais ar ei gynnwys cyn iddo gael ei gyhoeddi. Roedd fy swyddogion hefyd wedi cynnal asesiad o'r effaith integredig ac rwyf yn atodi'r crynodeb er gwybodaeth.

**14. A fydd y fframwaith arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar ddeddfwriaeth a/neu bolisiau presennol neu arfaethedig Cymru?**

Nid yw fframwaith y Cynllun Masnachu Allyriadau'n galw am newidiadau i unrhyw ddeddfwriaeth arall yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n un o gyfres o bolisiau i gefnogi datgarboneiddio diwydiannol a symud i ffwrdd oddi wrth gynhyrchu pŵer gyda thanwydd ffosil. Byddwn yn ystyried cwmpas ac effaith Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU wrth ddatblygu polisiau ar gyfer y dyfodol yn y maes hwn.

**15. Yn eich llythyr, rydych chi'n cyfeirio at ail Orchymyn mwy technegol sydd i'w ddisgwyl yn ddiweddarach eleni. A allwch chi egluro pryd y gall y Pwyllgor ddisgwyl gweld y Gorchymyn hwn, beth fydd yn ei gynnwys, ac i ba raddau y bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu arno?**

Rydym yn llunio fersiwn terfynol Gorchymyn a fydd yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol. Bydd hyn yn delio â dyrannu lwfansau am ddim a materion sy'n ymwneud â chofrestru lwfansau. Yn amodol ar y Senedd a'r deddfwrfeydd eraill yn cymeradwyo'r Gorchymyn sydd wedi cael ei osod ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu mynd â'r naill Orchymyn a'r llall gerbron cyfarfod y Cyfrin Gyngor ym mis Tachwedd cyn gosod yr ail Orchymyn ym mhob un o ddeddfwrfeydd y DU ar gyfer craffu.

# CYNLLUN MASNACHU ALLYRIADAU'R DEYRNAS UNEDIG

## Asesiad Integredig Llywodraeth Cymru o'r Effeithiau - Crynodeb

Holwch os hoffech weld copi o'r asesiad llawn.

### PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU'N EU HYSTYRIED A PHAM?

Bydd y fframwaith polisi a gynigir ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU) a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn creu marchnad garbon ar gyfer y DU gyfan i annog y sectorau pŵer, diwydiannol a hedfan i leihau'u hallyriadau mewn ffordd cost-effeithiol. Cafodd y polisi ei ddatblygu am y bydd y DU yn gadael System Masnachu Allyriadau'r UE (ETS yr UE) ar ôl diwedd Cyfnod Pontio Brexit. Bydd yn bosibl creu cysylltiadau rhwng ETS y DU ac ETS yr UE ymhen amser, wedi i Lywodraeth y DU drafod yr amodau â'r UE.

Mae systemau masnachu allyriadau'n sicrhau'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' trwy gyfrwng mecanwaith o'r enw 'capiu a masnachu', lle gosodir terfyn ar faint o nwyon tŷ gwydr penodol y caiff gweithfeydd a hediadau sy'n dod o dan y system eu cynhyrchu. O fewn y terfyn hwn, mae aelodau'n derbyn neu'n prynu lwfansau allyriadau y gallan nhw eu masnachu â'i gilydd yn ôl yr angen. Caiff y terfyn ei ostwng dros amser fel bod cyfanswm yr allyriadau'n gostwng.

Mae'r cynnig ar gyfer ETS y DU yn nodi'r aelodau fydd yn cymryd rhan, uchelgais amgylcheddol y cap a'r lwfansau, y gofynion monitro, adrodd a dilysu a threfn codi tâl, cydymffurfio, gorfodi, cosbi, apelio ac adolygu'r cynllun.

#### Atal ac Integreiddio yn y Tymor Hir

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiad difrifol i les cenedlaethau heddiw ac yfory trwy'r byd. Mae'r effeithiau amgylcheddol, ecolegol, economaidd, iechyd a chymdeithasol a ddaw yn ei sgil yn amlwg. Mae'r rheini sy'n aelodau o gynllun ETS yr UE yng Nghymru yn gyfrifol am ryw 46% o holl allyriadau Cymru. Mae'r polisi hwn felly'n rhan hanfodol o ymdrechion Llywodraeth Cymru i wireddu'i huchelgais a tharo'r targedau statudol ar gyfer yr hinsawdd.

Bydd rhan gynta' ETS y DU yn para 10 mlynedd, o 1 Ionawr 2021 tan 31 Rhagfyr 2030. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd tymor hir i aelodau'r cynllun, gan eu helpu i wneud penderfyniadau buddsoddi doeth.

#### Cydweithredu a Chyfranogi

Mae pedair llywodraeth gwledydd y DU a'u rheoleiddwyr wrthi'n cydweithio i greu 'Fframwaith Cyffredin' ar gyfer rheoli a datblygu ETS y DU yn y dyfodol.



Bydd ETS y DU yn datgarboneiddio'r sectorau hynny o'r economi sy'n gyfrifol am yr allyriadau carbon mwyaf. Rhaid i'r pedair llywodraeth sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd sy'n diogelu ac yn cryfhau diwydiant yn y DU heb ychwanegu baich allai ei lethu. Bydd y cynllun yn ceisio sicrhau na fydd perygl i ddiwydiannau gau ac achosi'r ergydion economaidd rhanbarthol fyddai'n gysylltiedig â hynny, yn ogystal ag osgoi ysgogi cwmnïau i symud.

Mae'n hanfodol gweithio gyda'r diwydiannau y mae'r polisi'n eu targedu. Cynhaliwyd ymgynghoriad am 10 wythnos rhwng 2 Mai 2019 a 12 Gorffennaf 2019, yn cynnig trywydd ar gyfer prisio carbon yn y DU a gofyn am safbwyntiau ynghylch siâp y cynllun yn y dyfodol. Yn ogystal â'r digwyddiadau a drefnwyd gan Lywodraeth y DU, cynhaliwyd dau yng Nghymru – y naill yn Abertawe a'r llall yn Llandudno.

Yn dilyn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth ac yn dilyn digwyddiad ar gyfer y DU gyfan, cynhaliwyd digwyddiad yng Nghymru ar gyfer rhanddeiliaid diwydiannol ar 16 Mehefin 2020 i drafod canlyniadau'r ymgynghoriad.

Ceir ymateb y llywodraethau i'r ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yn <https://llyw.cymru/prisio-carbon-y-du-yn-y-dyfodol>.

Mae rhanddeiliaid yn cydweithio â thimau polisi, rheoleiddwyr ac aelodau'r cynllun. Ar lefel ymarferol, mae hynny'n cynnwys eu help i brofi'r systemau TG newydd, cefnogaeth i sicrhau bod y cofrestrau a'r trwyddedau sydd eu hangen yn barod a help i sicrhau bod y newid o ETS yr UE i ETS y DU yn digwydd yn esmwyth. Byddwn hefyd yn gofyn i randdeiliaid gyfrannu at adolygiadau ad hoc o'r cynllun ac o'r system gyfan.

## **Effaith**

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ETS y DU. O edrych arno'n gyfan, barnwyd y byddai disgwyl i gynllun ar wahân arwain at fanteision mawr o ran datgarboneiddio heb amharu fawr ar allu busnesau a diwydiannau i gystadlu, o'i gymharu â chynllun ETS yr UE. Gallai cynllun cytûn greu marchnad garbon fwy a fyddai'n debygol o esgor ar gostau is i fusnesau.

Caiff nifer o arolygon o ETS y DU eu cynnal ar ôl lansio'r cynllun. Amcan yr arolygon hynny fydd sicrhau bod ETS y DU yn ateb y diben ac yn gwireddu amcanion y polisi.

## **Costau ac Arbedion**

Y prif gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ETS y DU o'i gymharu ag ETS yr UE yw'r costau gweinyddol i'r Llywodraeth o'i sefydlu (yn enwedig y systemau TG), costau diwygio neu gyhoeddi trwyddedau a chostau ychwanegol i aelodau'r cynllun oherwydd y risg o gostau carbon uwch o dan ETS ar wahân ar gyfer y DU.

Mae'r systemau TG sy'n cael eu datblygu ar gyfer ETS y DU yn cynnwys cofrestrfa i gadw lwfansau allyriadau a system ar gyfer caniatáu, monitro, adrodd a dilysu (PMRV). Bydd y ddwy system yn cymryd lle systemau'r UE y mae'r DU yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Costau bras sefydlu'r gofrestrfa fydd £3.45 miliwn a £3.25 miliwn fydd cost sefydlu'r system PMRV. Bydd yna gostau ychwanegol o greu cytundeb cytûn, er mwyn gallu cydweithio â systemau'r UE. Daw'r rhan fwyaf o'r arian ar gyfer talu am y ddwy system o gronfa bresennol Llywodraeth y DU ar gyfer ariannu system yr UE. Fodd bynnag, o 2021/22, rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gostau datblygu'r system PMRV, a chostau gwella'r ddwy system yn y dyfodol. Amcangyfrif o gostau 2021/22 yw £80,000 - £120,000. Wedi hynny, disgwylir i'r costau fod lawer is.

Mae mecanweithiau wedi'u creu fel rhan o'r cynllun er mwyn rheoli eithafion ym mhrisiau carbon. Bydd hynny'n cadw'r cymhellion i ddatgarboneiddio ond yn amddiffyn busnesau rhag costau eithriadol o uchel. Mae hynny'n cynnwys y pris cadw mewn ocsiwn (ARP) o £15 fesul lwfans. Hefyd, caiff lwfansau di-dâl eu neilltuo i rai gweithfeydd diwydiannol i sicrhau eu bod yn parhau'n gystadleuol ar lefel ryngwladol.

Mae'r graddau y bydd y costau hyn yn arwyddocaol i fusnesau unigol yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau ac yn amrywio yn ôl nodweddion y busnes a faint o lwfansau di-dâl a neilltuir iddo. Fodd bynnag, gallai costau carbon uchel yn y tymor byr wella cynaliadwyedd ein sylfaen ddiwydiannol trwy gymell rhagor o arloesedd ac o fuddsoddi mewn technolegau carbon isel a fydd yn eu gwneud yn fwy cystadleuol yn y tymor hir.

## CASGLIAD

### **Sut mae'r rheini fydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynnig yn cyfrannu at ei ddatblygu?**

Mae'r cynnig ar gyfer ETS y DU wedi'i lunio'n benodol ar gyfer gweithfeydd a sectorau diwydiannol sy'n drwm ar ynni. Ni ddisgwylir iddo gael effaith arwyddocaol ar unigolion na grwpiau penodol o bobl.

Mae pedair llywodraeth gwledydd y DU a'u rheoleiddwyr wrthi'n cydweithio i greu 'Fframwaith Cyffredin' ar gyfer rheoli a datblygu ETS y DU yn y dyfodol. Mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol a'r rheini fydd yn gyfrifol am reoli'r systemau TG hefyd yn cydweithio ar siâp y cynllun, gan elwa ar eu profiadau gwerthfawr o weithio ar gynllun ETS yr UE.

Byddwn yn parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid y diwydiant ar sut i ddatblygu a rhedeg y cynllun. Cynhaliwyd ymgynghoriad 10 wythnos rhwng 2 Mai 2019 a 12 Gorffennaf 2019 oedd yn nodi trywydd a ffefrir ar gyfer prisio carbon yn y DU ac yn gofyn am safbwyntiau ynghylch siâp y cynllun yn y dyfodol. Cafodd digwyddiadau eu cynnal ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru.

Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng ETS y DU â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ond cynhwysir darpariaethau ynghylch y Gymraeg yn yr holl ddeunydd cyfathrebu â rhanddeiliaid, yn unol â Safonau Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

### **Beth yw'r effeithiau mwyaf, da a drwg?**

Prif effaith (dda) y cynnig i sefydlu ETS y DU fydd lleihau allyriadau gweithfeydd a sectorau diwydiannol penodol sy'n drwm ar ynni. Mae'r 'sector masnachu' y mae'r cynllun masnachu carbon yn effeithio arno yn gyfrifol am ryw 46% o gyfanswm allyriadau carbon Cymru. O'r herwydd, bydd y cynllun yn cyfrannu mewn ffordd arwyddocaol at gwrdd â thargedau lleihau allyriadau Cymru. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i leihau allyriadau i'r graddau mwyaf posibl a chadw'r effeithiau ar allu busnesau i gystadlu mor fach â phosibl. Bydd hefyd yn ceisio osgoi ergydion diangen i aelodau'r cynllun trwy sicrhau bod y trefniadau mor debyg â phosibl i drefniadau ETS yr UE (y bydd y DU yn ei adael ar ddiwedd Cyfnod Pontio Brexit) a thrwy fecanweithiau rheoli prisiau penodol fydd yn rhan o'r cynllun.

Mae effeithiau tymor hir posibl y newid yn yr hinsawdd yn bellgyrhaeddol ac yn hynod arwyddocaol. Bydd ETS y DU yn cyfrannu at leihau effeithiau tymor hir ar yr hinsawdd, adnoddau naturiol a chymdeithas.

Nid oes effeithiau drwg arwyddocaol wedi'u nodi. Efallai y bydd rhai costau ychwanegol ymylol i fusnesau o'u cymharu ag aros yn ETS yr UE.

### **Yng ngoleuni'r effeithiau a nodir, sut bydd y cynnig:**

- yn cynyddu ei gyfraniad at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu
- yn osgoi, lleihau neu'n lliniaru effeithiau negyddol?

Mae ETS y DU wedi'i lunio i gymryd lle ETS yr UE. Bydd yn gyfraniad arwyddocaol at gwrdd â thargedau lleihau allyriadau Cymru. Wrth wneud, bydd yn cyfrannu at Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel a ganlyn:

- Cymru ffyniannus – sicrhau cymdeithas carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd). Mae hyn yn cynnwys datblygu fframweithiau sy'n cymell datgarboneiddio ac sy'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n cryfhau diwydiant yng Nghymru ac yn diogelu swyddi.
- Cymru gydnerth – Lleihau'r effeithiau ychwanegol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol sy'n gysylltiedig ag allyriadau tymor hir.
- Cymru iachach – Osgoi effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar iechyd a lles.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – Osgoi effeithiau ehangach ac eilaidd y newid yn yr hinsawdd ar gymdeithas.

Profwyd bod y newid yn yr hinsawdd yn cael effaith anghymarus ar rannau mwyaf difreintiedig cymdeithas. Bydd cyfraniad y cynllun hwn at ddatgarboneiddio Cymru'n sicrhau na chaiff yr effeithiau eu gwaethygu. Bydd y cynllun yn ategu hefyd y gwaith a wneir mewn mannau eraill i greu cydraddoldeb yng Nghymru trwy ddiogelu swyddi.

- Cymru o gymunedau cydlynus – Cefnogi economïau a chymunedau lleol trwy fynd ati mewn ffordd gynaliadwy i ddatgarboneiddio diwydiant a chadwyni cyflenwi.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang – Cyfrannu at leihau allyriadau'r byd, a pholisi fydd yn osgoi ysgogi busnesau i symud.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – bydd yr holl ymwneud â rhanddeiliaid yn cydymffurfio â chanllawiau polisi'r Gymraeg trwy sicrhau cynaliadwyedd yr adnoddau naturiol o fewn ein cymunedau ac amgylcheddau byw. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg hefyd yn anuniongyrchol.

### **Sut caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd yn ei flaen a phan y daw i ben?**

Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 yn nodi bod angen cynnal dau adolygiad mawr o'r system gyfan yn ystod y cyfnod 10 mlynedd. Caiff yr adolygiad cyntaf o ETS y DU ei gynnal o 2023 i asesu perfformiad y system gyfan yn hanner cyntaf y cyfnod (2021-25) gydag unrhyw welliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud erbyn 2026; caiff adolygiad llawn ei gynnal yn 2028 i asesu perfformiad y system gyfan ar draws Cyfnod 1 (2021-2030) yn gyfan gyda rheolau ETS y DU yn cael eu diweddarau yn 2031 (Cyfnod II). Bydd yr adolygiadau hyn yn cyd-ddigwydd â'r adolygiadau o Gyfnod IV ETS yr UE a Storcrestr Byd-eang Cytundeb Paris.

# **UK ETS Common Framework**

## **Summary document**

### **Policy Background**

The UK currently participates in the EU Emissions Trading System (EU ETS), which is the world's largest trading system for greenhouse gas (GHG) emissions. Emissions trading schemes work on the 'cap and trade' principle, where a cap is set on the total amount of certain GHGs that can be emitted by participating installations and aircraft. Within the limits of this cap, participants receive or buy allowances equivalent to their own emissions, which they can trade with one another as needed. The overall cap is reduced over time, so that total emissions fall.

At the end of the Transition Period (on 31st December 2020), the UK will cease to participate in the EU ETS.<sup>1</sup> A replacement carbon pricing policy is required to stimulate emissions reduction from large UK emitters within the industrial, power and aviation sectors currently participating in the EU ETS.

In 2019, the UK Government and devolved administrations (DAs) undertook a public consultation seeking views on the UK's future carbon pricing policy. This consultation set out policy positions for a UK-wide Emissions Trading System (UK ETS), whilst noting that fall-back options included a carbon emissions tax, or remaining in Phase IV of the EU ETS.

The four Governments are open to considering a link between a future UK ETS and the EU ETS, if such a linking agreement is in both sides' interests and recognises both parties as sovereign equals with our own domestic laws. A link between the UK and EU trading schemes could help to establish a much larger carbon market, which could increase opportunities for emissions reduction and cost-efficiency of emissions trading.

### **Rationale for seeking Common Framework**

The UK Government and the DAs are committed to carbon pricing as an effective emissions reduction tool. Placing a price on carbon creates the incentive for emissions to be reduced in a cost effective and technology-neutral way, while mobilising the private sector to invest in emissions reduction technologies and measures.

Climate policy, including the establishment of emissions trading systems, falls within devolved competence. However, the UK Government and DAs have agreed to jointly introduce secondary legislation to establish a single, UK-wide ETS with a common set of rules for participants. There are several benefits of such an approach (as opposed to separate systems in the four UK nations):

- A UK-wide system will create a larger carbon market, with greater liquidity, and a consistent carbon price across the UK.

---

<sup>1</sup> By virtue of Article 9, Annex 4 of the Ireland / Northern Ireland Protocol, NI electricity generators will continue to participate in Phase IV of the EU ETS to ensure a common carbon price on the island of Ireland to maintain the SEM (Single Electricity Market)

- Access to a larger carbon market increases opportunity for emissions reduction and the cost effectiveness of emissions trading.
- A common, UK-wide approach to carbon pricing avoids ‘carbon leakage’<sup>2</sup>, which could have a negative effect on the contribution of the policy to reduce emissions in line with international obligations, and the UK’s pathway towards our net zero target.

The UK ETS is designed to operate on a UK-wide basis, and therefore the rules for operators need to apply consistently across the UK to ensure the integrity of the system.

Nonetheless, any proposals for policy divergence between administrations will be considered by the four administrations jointly, using the agreed governance process that will be established in the UK ETS concordat. Any areas in which divergence is proposed will be considered by all parties to the concordat considering any potential impact on the functioning of the UK Internal Market, in line with the Common frameworks principles agreed at JMC(EN).<sup>3</sup>

### **Stakeholder engagement**

Between May and July 2019, the UK Government and DAs jointly consulted on the future of carbon pricing in the UK after EU Exit, setting out policy proposals for a UK-wide ETS which would be operational from 1<sup>st</sup> January 2021. The consultation received over 130 responses, from a range of stakeholders across the UK including current EU ETS participants and NGOs, with the majority of respondents to each question supporting the proposal being put forward.

As part of this consultation, UKG and the DAs ran stakeholder events across England, Wales, Scotland and Northern Ireland. Views from all stakeholders on proposals for a UK-wide ETS were taken into account when considering the final policy design.

The joint Government Response to the consultation was published on 1<sup>st</sup> June 2020 and can be accessed here: <https://www.gov.uk/government/consultations/the-future-of-uk-carbon-pricing>

### **Approach to framework**

The UK ETS will be established using secondary legislation made using existing primary powers under the Climate Change Act 2008 (the CCA), and through the Finance Act 2020. A non-legislative agreement (concordat) will set out the principles underpinning the ongoing oversight and governance of the system by Officials and Ministers from the four administrations, including decision-making and dispute resolution processes. These elements are explained in more detail below.

---

<sup>2</sup> Carbon leakage occurs when businesses transfer production to other countries with less stringent emissions constraints

<sup>3</sup> The JMC(EN) principles can be found here: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/652285/Joint\\_Ministerial\\_Committee\\_communique.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/652285/Joint_Ministerial_Committee_communique.pdf)

## **Legislation**

UK ETS legislation comprises:

- *The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Order 2020*: an affirmative procedure Order in Council under the **CCA** to set up a UK-wide ETS which will be operational from 2021. Key provisions included in this instrument cover the scope of the system, monitoring and reporting requirements, the cap and trajectory and the roles of the regulators in monitoring and enforcing the rules of the system. This Order was laid in the UK and Devolved Parliaments in July and is expected to be in force by the end of the Transition Period in all four nations.
- *The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Order (Amendment) 2020*: a negative procedure Order in Council under the Climate Change Act which will amend the affirmative procedure instrument once made to include provisions for free allocation and the UK ETS registry. This Order is due to be laid in the UK and devolved Parliaments in November.
- A charging clause to be taken in the *Finance Act 2020*, to provide for the UK Government to charge participants for emissions allowances at auction.
- An affirmative procedure statutory instrument to be introduced under the Finance Act 2020 to establish rules for the auctioning of emissions allowances and mechanisms to support market stability. This instrument is expected to be laid in the UK Parliament in November.
- Additionally, the *Recognised Auction Platforms (Amendment) Regulations 2020* will be laid in draft before both the Commons and the Lords. This SI will set out the regulations for the trading of emissions allowances in the UK Emissions Trading System (ETS), including establishing the rules for access to the auction platform and rules for the relevant disclosures. It will enshrine an oversight role for the Financial Conduct Authority (FCA) such that the FCA can monitor the auctioning process and secondary market trading to prevent market abuse and ensure the effectiveness of the system. This SI will ensure that UK emissions allowances are subject to the relevant regulatory oversight and treatment as Financial Instruments.

## **UKG/DA governance concordat**

The UK Government and DAs have together developed UK ETS governance principles and arrangements over the past two years, including processes for decision-making and dispute resolution. A non-legislative agreement in the form of a concordat will set out governance arrangements for the UK ETS, including processes for making decisions and resolving disputes under the system.

Governance processes shall be set out in more detail in the UK ETS Framework Outline Agreement (FOA), and in the resulting concordat. Key governance principles, which UK Government (BEIS, HMT and DfT) and the DAs have agreed to adhere to, are set out below:

- Proposals relating to all areas of UK ETS policy should be considered using the joint governance process.
- The four administrations are committed to, wherever possible, taking decisions jointly. Where the four administrations agree that an individual administration holds exclusive competence over a particular matter, that administration will not exercise that competence to take a decision unilaterally without first having discussed it with all other administrations.
- All four administrations will endeavour to ensure market and legislative stability throughout the agreed ETS phases. The UKG and DAs should adhere to planned review points and ensure that significant legislative and policy changes are aligned with these planned review points.
- The four administrations are committed to seeking advice from their statutory advisors, the Committee on Climate Change prior to laying legislation.
- Working groups for discussion of policy decisions and system interventions under the UK ETS should include representation from BEIS, the DAs, HMT, DfT (where appropriate) and the environmental regulators (where appropriate).
- At ministerial level, BEIS and DA Ministers (and DfT Ministers, where appropriate) will be sighted and engaged in discussions where a policy decision relating to elements of the policy set out under the Finance Act is being considered. A ministerial level discussion should constitute a two-way exchange, with BEIS and DA Ministers allowed sufficient time to consider the decision and raise challenges. Responsibility for final sign-off of decisions relating to the elements of a UK-wide emissions trading system set out in Finance Act provisions will lie with the Chancellor (HMT). Before final sign-off, HMT Ministers should respond to challenges raised and provide justification for decisions reached. Should a UKG or DA Minister dispute a decision in a reserved policy area, this can be escalated to the JMC Secretariat.
- As the UK Government department responsible for aviation policy, DfT should have the option to attend all Official and Senior level groups given the potential impact of decisions made under a UK ETS on aviation. Agreement from DfT ministers must be gained before agreeing a UK Government policy position focused on aviation under a UK ETS.
- For the most effective use of the governance structure, and ultimately the operation of the system, proposals should be discussed and, where possible, a recommendation agreed at Official Level working groups.
- For all proposals, the UK Government and DAs should seek to obtain appropriate and relevant evidence to support recommendations reached. Any relevant evidence obtained must be taken into account in reaching a recommendation.
- In all decision-making, the parties to the framework will adhere to the common framework principles agreed at JMC (EN) in October 2017.



## **Process for completion**

### ***Legislation***

<b>UK ETS Legislation</b>		
<b>Instrument</b>	<b>Laying date</b>	<b>In force date</b>
The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Order 2020	13 <sup>th</sup> July (UK Parliament, Scottish Parliament), w/c 15 <sup>th</sup> July, (Welsh Parliament) 15 <sup>th</sup> July (NI Assembly)	Mid-November
The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Order (Amendment) 2020	Mid-November	Mid-November
Finance Act 2020 (charging clause)	17 <sup>th</sup> March 2020	22 <sup>nd</sup> July 2020 (Royal Assent)
Auctioning and market stability mechanisms SI	October/November 2020 (TBC)	December 2020 – January 2021
Recognised Auction Platforms (Amendment) Regulations 2020	TBC	TBC

### ***Framework Outline Agreement (FOA)***

The UK ETS FOA will set out, in more detail, our approach to the common framework and proposed decision-making and dispute resolution processes. It has been used as a policy development tool.

The UK ETS FOA shall be cleared by UK Government and DA Ministers and will be presented to the UK and Devolved Parliaments alongside the concordat.

### ***Governance concordat***

Following JMC(EN) clearance of the provisional framework, the FOA and concordat will become available for parliamentary scrutiny. We expect that the FOA and concordat will be available for scrutiny in late October/early November.